



Diogelwch yn eich
C**ARTREF**



Diogelwch yn eich **CARTREF**

- ▲ Diogeledd
- ▲ Tân
- ▲ Nwy
- ▲ Trydan
- ▲ Balconïau a Phennau Grisiau
- ▲ Ffenestri a Drysau
- ▲ Sbwriel
- ▲ Y Tu Allan i'ch Cartref
- ▲ Diogelwch Plant
- ▲ Gollyngiadau a Diogelwch Dŵr

Cynnwys

Rhagarweiniad	4
Diogeled	4
Tân	5
Trydan.....	8
Nwy.....	10

Y tu mewn i'r cartref

Balconïau a phennau grisiau	14
Ffenestri a nodweddion gwydr.....	15
Sbwriel.....	16
Diogelwch Plant.....	17
Gollyngiadau Dŵr	18
Diogelwch Dŵr	18
Nodiadau	19

Diogelwch yn eich cartref

Mae'n werth darllen y llyfryn a'i gadw gyda chi. Trwy synnwyr cyffredin ac ymwybyddiaeth o leoliad peryglon, gellir atal y rhan fwyaf o ddamweiniau.

Mae'r llyfryn yn ymdrin â'r achosion mwyaf cyffredin o ddamweiniau yn y cartref. Os dilynwch y cyngor yma, bydd damwain yn llawer llai tebygol o ddigwydd i chi. Mae'n esbonio sut i gael cyngor a hefyd yn cynnwys rhai rhifau ffôn defnyddiol.

Mae Gwasanaeth Tai Dinas a Sir Abertawe'n ceisio sicrhau bod safleoedd y cyngor mor ddiogel â phosib. Fodd bynnag, rydych yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun ac am unrhyw un sy'n byw gyda chi neu sy'n ymweld â chi. Os ydych yn gweld rhywbeth a allai beryglu diogelwch, rhowch wybod amdano i'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.

I roi gwybod am unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol, ffoniwch y Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau ar ? **01792 635100**.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.

Diogeled

- ▲ Sicrhewch eich bod yn cloi pob drws a ffenest pan fyddwch yn mynd allan, hyd yn oed am gyfnod byr.
- ▲ Cofiwch gloi eich drws blaen os ydych yn mynd i'r ardd gefn.
- ▲ Peidiwch â gadael eich allweddi lle gellir eu gweld o'r tu allan.
- ▲ Gadewch olau ymlaen yn eich cartref pan fyddwch allan yn y nos.
- ▲ Bydd twll sbïo yn eich drws yn eich helpu i weld pwy sydd y tu allan.
- ▲ Bydd golau diogeled hefyd yn eich helpu i weld pwy sydd y tu allan, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol am ganiatâd cyn gosod un.


- ▲ Mae gosod cadwyn ddrws yn rhwystro pobl rhag gwthio eu ffordd i mewn.
- ▲ Rhowch glo cryf ar unrhyw siediau neu garejys.
- ▲ Os ydych yn cadw unrhyw gyfarpar mewn garej neu sied, gorchuddiwch ef neu paentiwch dros unrhyw ffenestri.
- ▲ Gwnewch yn siŵr nad ydych yn eich cloi eich hun allan – rydym yn debygol o godi tâl arnoch i newid clo.
- ▲ Gofynnwch i weld dogfennaeth adnabod unrhyw ddieithryn sy'n galw heibio'ch cartref.

Mae pob aelod o staff y cyngor a chontractwr awdurdodedig yn cario cardiau adnabod gyda ffotograffau.

Os ydych yn amau, nodwch yr enw a holwch eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol yn ei gylch cyn caniatáu iddynt ddod i mewn i'ch cartref.

Tân

- ▲ Mae synwryddion mwg yn arbed bywydau. Maent yn eich rhybuddio wrth i dân gychwyn, gan roi amser i chi ddianc. Dylai'ch eiddo gynnwys larymau mwg gwifredig. Sicrhewch fod y larymau'n gweithio, trwy wasgu'r botwm o leiaf unwaith yr wythnos. Os ydych am roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'r larymau mwg, ffoniwch y Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau ar ? **01792 635100**. Peidiwch byth â'u tynnu neu eu diffodd.
- ▲ Cadwch blant draw o fflamau noeth. Cadwch fatisis neu thanwyr allan o gyrraedd plant.
- ▲ Peidiwch byth â rhoi unrhyw beth sy'n gallu llosgi (paent, gwirodydd gwyn, papur, defnydd etc) ar bwys unrhyw ffynhonnell wres. Peidiwch â rhoi llenni ar bwys stof - mae hynny'n beryglus iawn.
- ▲ Cadwch boteli nwy allan o'ch cartref yn gyfan gwbl.



- ▲ Mae drysau tân yn atal mwg a fflamau rhag lledaenu. Dylech eu cadw ar gau trwy'r amser, yn enwedig wrth fynd i'r gwely. Bydd unrhyw ddrws sydd ar gau yn atal mwg. Os bydd drws ystafell lle mae tân yn boeth neu â marciau llosgi arno, peidiwch â'i agor. Profwch y drws â chefn eich llaw.
- ▲ Cynlluniwch lwybrau dianc a'u cadw'n glir bob amser.
- ▲ Gwiriwch gyfarpar trydanol yn rheolaidd. Mae cyfarpar trydanol diffygiol yn un o achosion cyffredin tanau.
- ▲ Defnyddiwch erosolau ac adlynon mewn lle sy'n cael ei awyru'n ddigonol i ffwrdd o fflamau a gwreichion.
- ▲ Peidiwch â gadael sbwriel neu unrhyw beth sy'n gallu llosgi y tu allan i'ch cartref lle gellid ei roi ar dân.
- ▲ Peidiwch â gadael poteli nwy neu unrhyw hylifau fflamadwy heb eu diogelu y tu allan i'ch cartref.
- ▲ Peidiwch â gadael gwresogyddion symudol ger celli a dodrefn meddal neu rywle lle gellid eu bwrw drosodd.
- ▲ Gall padelli sglodion LADD! Peidiwch byth â llenwi un fwy na thraean. Peidiwch byth â gadael un ar stof heb ei goruchwylio.
- ▲ Gellir diffodd tanau padell sglodion â chlwtyn llaith neu drwy'i gorchuddio â'r caead. Diffoddwch y gwres yn gyntaf. Dylech ei gadael am 30 munud. Peidiwch â rhoi dŵr ar fraster sy'n llosgi neu unrhyw beth trydanol.
- ▲ Gwiriwch fod popeth yn ddiogel cyn mynd i'r gwely. Diffoddwch bob teclyn trydanol a gwiriwch bob gosodiad nwy. Caewch bob drws wrth fynd i'r gwely neu wrth fynd allan. Bydd hyn yn atal tân rhag ymledu.
- ▲ Mae smygu'n beryglus. Mae pobl yn marw trwy daflu sigarennau, pibau, matsis a thanwyr yn ddiofal yn y cartref. Peidiwch byth â'u gadael heb eu goruchwylio. Peidiwch byth â smygu pan rydych wedi blino, yn enwedig yn y gwely.



Os bydd tân

- ▲ Peidiwch â sychu na storio dillad neu ddillad gwely neu unrhyw beth arall ar eich boeler gwresogi canolog.
- ▲ Peidiwch â storio deunyddiau fflamadwy megis paent yng nghwprdd y gwresogydd. Gallai hyn achosi tân.
- ▲ Os gallwch ddiffodd y tân yn ddiogel, gwnewch hyn. Gellir diffodd llawer o danau yn y cartref trwy ddefnyddio dŵr neu glwyn llaith.
- ▲ Peidiwch â rhoi dŵr ar unrhyw beth trydanol neu ar fraster sy'n llosgi, fel mewn padell sglodion.
- ▲ Os na allwch weld lle rydych yn mynd, cadwch gefn un llaw yn erbyn wal a symudwch y llall i fyny ac i lawr o'ch blaen wrth i chi gerdded.
- ▲ Os bydd yn anodd anadlu, gorweddwch yn wastad ar y llawr lle mae haen o awyr bob amser a chropiwch ar eich breichiau, eich pengliniau a blaenau'ch traed.
- ▲ Os oes rhaid neidio o ffenestr lan lofft, ceisiwch daflu rhywbeth meddal allan yn gyntaf, fel matres, i lanio arno.
- ▲ Peidiwch â gwastraffu amser yn casglu unrhyw eiddo - gallai hynny gostio'ch bywyd. Does dim byd mor werthfawr â'ch bywyd.



Trydan

Ffiwsiau

Mae ffiwsiau'n amddiffyn pobl a chyfarpar rhag siociau. Defnyddiwch y ffiws gywir i'r teclyn dan sylw bob tro. Dylai'r gyfradd watedd (W) fod arni.

Defnyddiwch y ffiws leiaf bosib bob amser. Gall ffiws sy'n rhy fawr niweidio'r cyfarpar os bydd nam yn datblygu.

Plygiau a socedi

- ▲ Gall soced trydan unigol ymdopi â hyd at 3000 W yn unig - er enghraifft, tân un-bar a thegell. Mae'n beryglus ei orlwytho.
- ▲ Rhaid bod plygiau'n cael eu gwirio'n ofalus bob tro fel na allwch weld unrhyw un o'r gwifrau lliw.
- ▲ Rhaid bod plyg i bob teclyn. Peidiwch byth â gwthio gwifrau'n uniongyrchol i mewn i soced.
- ▲ Peidiwch â phlygio teclynnau i mewn i osodiadau golau. Plygiwch nhw bob amser i mewn i soced.
- ▲ Rhowch orchuddion dros unrhyw socedi segur i atal plant rhag gwthio unrhyw beth ynddynt. Gallwch brynu'r rhain yn y rhan fwyaf o siopau DIY a thrydan.
- ▲ Peidiwch â defnyddio tâp i drwsio neu uno gwifrau trydan - defnyddiwch gysylltwyr priodol.
- ▲ Peidiwch â chyffwrdd â switshis na phlygiau gyda dwylo gwlyb - gallech gael sioc.



Awyr agored

- ▲ Peidiwch â defnyddio cyfarpar trydanol yn yr awyr agored os yw'n bwrw glaw neu os yw'r ddaear yn wlyb iawn. Gallech gael sioc yn hawdd.
- ▲ Defnyddiwch dorwr cylched megis Dyfais Cerhyntau Gweddillol (DCG) bob tro byddwch yn gweithio yn yr awyr agored. Gallwch brynu'r rhain mewn siopau DIY a siopau eraill.

Fflecsys a cheblau estynedig

- ▲ Cadwch fflecsys draw o ffynonellau gwres megis stofiau a thanau.
- ▲ Gwnewch yn siŵr fod fflecsys yn syth, heb unrhyw grychion na difrod.
- ▲ Dylech ddad-ddirwyn ceblau estynedig yn llwyr, gan unioni clymau a chrychion cyn eu defnyddio i'w hatal rhag gorgynhesu.
- ▲ Peidiwch byth â defnyddio cebl estynedig mewn ystafell ymolchi.
- ▲ Gwiriwch fflecsys a theclynnau'n rheolaidd am ddifrod, cysylltiadau rhydd etc.

A dyma ychydig bwytiau eraill er mwyn eich diogelwch...

- ▲ Defnyddiwch drydanwr cymeradwy ar gyfer pob gwaith trydanol.
- ▲ Ni ddylech newid unrhyw ran o system drydanol eich cartref heb ganiatâd.
- ▲ Os ydych yn prynu cyfarpar ail-law, gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiogel cyn ei ddefnyddio.
- ▲ Darllenwch a dilynwch bob tro y cyfarwyddiadau a ddarperir gydag unrhyw gyfarpar trydanol.
- ▲ Gall plygiau a socedi poeth eich trydanu neu ddechrau tân, felly mae'n rhaid trin diffygion yn gyflym.

Os na allwch ddatrys problem, rhowch wybod amdani ar unwaith trwy ffonio'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau ar ? **01792 635100**.




TRYDAN - Rhagweld problemau

Os ydych yn amau, diffoddwch y prif gyflenwad cyn i chi wneud unrhyw beth arall.

PROBLEM	ACHOS	BETH I'W WNEUD
Plyg yn boeth dros ben pan gaiff ei dynnu o'r soced	Gorlwytho/ cysylltiad rhydd i'r soced	Ei wirio. Gosod plyg newydd ond rhoi gwybod am unrhyw ddiffyg i'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau
Sŵn sïo o blyg neu soced	Cysylltiad llac	Diffodd, tynnu a gwirio'r plyg
Marciau llosgi ar blyg neu soced	Cysylltiad llac	Gosod plyg newydd. Rhoi gwybod i'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau
Arogl pysgodlyd o'r plyg/soced	Gorlwytho/ cysylltiad llac	Gosod plyg newydd. Rhoi gwybod i'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau
Teclyn yn cychwyn ac yn diffodd	Cysylltiad llac neu doriad mewn fflecs	Tynnu a gwirio'r plyg. Trefnu i drydanwr cymwys wirio'r cyfarpar
Goleuadau'n fflachio	Cysylltiad llac	Rhoi gwybod i'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau

Nwy

- ▲ Os na chaiff ei drin yn briodol, gall nwy fod yn beryglus iawn. Gall nwy sy'n gollwng arwain at ffrwydradau. Gall gosodiadau nwy nad ydynt yn gweithio'n gywir gynhyrchu mygdarthau gwenwynig.
- ▲ Mae'r Gwasanaeth Tai'n gwneud ei orau glas i sicrhau bod holl gyfarpar nwy y cyngor yn gweithio'n ddiogel. Mae eich cymorth yn hanfodol.



- ▲ Rydym yn gwasanaethu holl gyfarpar nwy y cyngor bob blwyddyn a byddwn yn gadael tystysgrif gyda chi i gadarnhau hyn.
- ▲ Rhaid i chi drefnu gwasanaeth i'ch cyfarpar nwy eich hun. Mae hyn yn cynnwys stofiau yn ogystal â chyfarpar gwresogi. Mae hefyd yn cynnwys cyfarpar nwy symudol.
- ▲ Rhaid i chi roi mynediad i beirianwyr y cyngor i'ch cartref i gynnal y gwasanaeth blynyddol. Mae hyn yn berthnasol i bob safle lle defnyddir nwy, hyd yn oed os yw'r unig gyfarpar nwy yn eich cartref yn perthyn i chi. Mae angen i ni wirio'r pibwaith cyflenwi nwy o hyd. Byddwn yn gweithredu'n gadarn yn erbyn unrhyw un nad yw'n cydweithredu nac yn rhoi mynediad i'r gwaith hwn.
- ▲ Rhaid i'r holl waith a wneir i gyfarpar nwy gael ei gynnal gan osodwr sydd wedi'i gofrestru gyda Gas Safe. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw wresogyddion, stofiau, rheolyddion, pibwaith, ffliwiau, awyrellau neu gyfarpar arall sy'n gysylltiedig â chyfarpar nwy.
- ▲ Os hoffech i rywun wneud peth gwaith i'ch cyfarpar neu'ch cyflenwad nwy, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.
- ▲ Os oes gwresogydd dŵr nwy uniongyrchol gennych, gwnewch yn siŵr fod yr ystafell yn cael ei hawyru'n dda. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd wrth ei ddefnyddio.
- ▲ Gall gwresogyddion nwy symudol fod yn arbennig o beryglus. Byddai'n well gan y cyngor os nad ydynt yn cael eu defnyddio. Os oes un gennych, gwnewch yn siŵr ei fod mewn cyflwr da a'i fod yn cael ei ddefnyddio a'i wasanaethu yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd.
- ▲ Diffoddwch eich cyfarpar nwy bob tro cyn defnyddio gwyntyll nenfwd. Wrth gylchdroi, gall gwyntyllau ymyrryd ag awyru naturiol y mae ei angen ar gyfarpar nwy. Gallant atal y ffliw rhag gweithio'n gywir a thynnu mygdarthau carbon monocsid peryglus yn ôl i'r ystafell. Mae'n ddigon diogel defnyddio gwyntyllau nenfwd os yw'r gosodiad nwy wedi'i ddiffodd.

- ▲ PEIDIWCH â rhwystro unrhyw friciau awyru neu awyrellau. Gall y rhain ddarparu awyr sy'n hanfodol i gyfarpar nwy weithredu'n ddiogel. Peidiwch â'u rhwystro y tu mewn i'ch cartref neu y tu allan gyda siediau, planhigion neu lwyni etc.
- ▲ Gwnewch yn siŵr fod eich cegin yn cael ei hawyru'n dda wrth ddefnyddio'ch stof nwy.
- ▲ Mae gwneud gwaith nwy eich hunan yn torri'r gyfraith. Peidiwch â chaniatáu i neb wneud unrhyw waith i'r cyfarpar nwy yn eich cartref oni bai bod ganddynt y tystysgrifau cymhwysedd priodol a'u bod ar Gofrestr Gas Safe.

Cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol os ydych:

- ▲ am i'r cyngor gynnal a chadw eich cyfarpar nwy;
- ▲ yn meddwl nad yw'r cyfarpar nwy yn eich cartref wedi cael eu gwasanaethu;
- ▲ heb dystysgrif i gadarnhau eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf;
- ▲ am osod cyfarpar nwy newydd neu addasu un sydd gennych eisoës.

Ffoniwch y Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau ar unwaith ar ? 01792 635100 os ydych:

- ▲ yn amau bod problemau gyda'ch cyflenwad neu'ch cyfarpar nwy.

Er enghraifft:

- ▲ Marciau huddygl neu staeniau melyn/brown o amgylch cyfarpar
- ▲ Anwedd yn cynyddu mewn ystafell lle mae cyfarpar nwy gweithredol
- ▲ Mae cyfarpar yn llosgi gyda fflam felen neu oren ond nid glas
- ▲ Fflam beilot yn diffodd yn aml
- ▲ Arogl nwy

Os oes arogl cryf o nwy neu os ydych yn amau bod nwy'n gollwng, rhaid i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol ar ? **0800 111 999** a'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau.

Caewch y prif gyflenwad nwy ond PEIDIWCH â diffodd unrhyw oleuadau trydan os ydych yn amau bod nwy'n gollwng. Gallai hynny achosi ffrwydrad.

Os ydych am gysgu mewn ystafell gyda chyfarpar nwy, diffoddwch y gosodiad bob amser cyn mynd i gysgu.

COFIWCH: Gall cyfarpar diffygiol gynhyrchu carbon monocsid sy'n wenwynig. Nid oes modd ei aroglu na'i weld. Os caiff ei fewnanadlu, gall fod yn angeuol. Dyma arwyddion cyntaf gwenwyno carbon monocsid:

- ▲ Blinder
- ▲ Pen tost
- ▲ Symptomau'n debyg i'r ffliw megis y cyfog
- ▲ Poenau yn y frest
- ▲ Pendro sydyn wrth sefyll
- ▲ Salwch, dolur rhydd a phoenau yn y stumog
- ▲ Ymddygiad afreolus

Os bydd unrhyw un yn profi'r symptomau uchod, rhaid gadael yr ystafell yn gyflym a mynd allan i'r awyr iach. Ewch i weld eich meddyg ar unwaith. Mewn argyfwng ffoniwch ? **999**.

Os ydych yn amau bod cyfarpar yn cynhyrchu carbon monocsid, rhaid i chi ei ddiffodd ac awyru'r ystafell. Rhowch wybod amdano ar unwaith i'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau.



Balconïau a phennau grisïau


- ▲ Ni ddylid gadael plant ar eu pennau eu hunain ar falconïau neu bennau grisïau ar unrhyw adeg.
- ▲ Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth ar gael y gall plant dringo arnynt, megis gâtïau, cadeirïau a photïau planhigion.
- ▲ Cadwch ddrws y balconï ar glo gyda'r allwedd gerllaw, ond y tu hwnt i gyrraedd plant.
- ▲ Cadwch eich balconï'n lân a gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth arno a all gwmpo neu y gellid ei daflu ar bobl isod.
- ▲ Gallai atodi eitemau trwm megis erïalau neu ddysglau lloeren wrth falconï ei wneud yn ansefydlog ac yn beryglus. Gwiriwch yn gyntaf gyda'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.
- ▲ Rhaid cadw llwybrau dianc i falconïau a phennau grisïau yn glir bob amser.
- ▲ Rhowch wybod am ddiffygion ar unwaith - er enghraifft, gosodiadau rhydd, concrit rhydd neu hollt neu bren sy'n pydru.
- ▲ Gall amgáu balconïau achosi problemau awyru a diogelwch. Gwiriwch gyda'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol cyn dechrau gwaith o'r fath.
- ▲ Mae angen cadw grisïau a chanllawïau mewn cyflwr da ac ni ddylid eu haddasu neu eu tynnu. Rhowch wybod am unrhyw ddiffygion i'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.
- ▲ Mae'r grisïau'n llwybr dianc hollbwysig os bydd tân - peidiwch â storïo unrhyw ddeunyddïau fflamadwy neu beryglus yn agos atynt (petrol, gwïrod methyledig, silindrau nwy etc).
- ▲ Peidiwch byth â rhoi unrhyw beth ar y grisïau y gallech chi gwmpo, llithro neu faglu drostynt.

Mewn manau cymunedol...

- ▲ Peidiwch ag achosi unrhyw rwystrau neu beryglon gyda phethau fel byrddau, matïau rhydd neu hen gelfi.
- ▲ Peidiwch â defnyddïo lletem i gadw drysau tân neu drysau â systemau diogelwch ar agor.
- ▲ Peidiwch â rhoi potïau planhigion neu unrhyw beth arall ar risïau cymunedol. Gallai hyn beri i rywun faglu a chwympo.
- ▲ Peidiwch â pharcïo sgwteri symudedd neu feiciau modur yn y manau cymunedol. Gallai'r rhain rwystro llwybrau dianc mewn argyfwng.

Ffenestri a drysau

- ▲ Os oes unrhyw gliciedau diogelwch ar eich ffenestri, gwnewch yn siŵr eu bod yn gadarn ac yn gweithio'n briodol, yn enwedig os ydych yn byw mewn tŵr fflatiau. Peidiwch â'u newid neu eu tynnu.
- ▲ Rhowch wybod am unrhyw wydr sydd wedi torri ar unwaith.
- ▲ Defnyddiwch y dolenni i agor neu gau ffenestri neu ddrysau gwydrog bob amser - peidiwch byth â gwthio ar wydr.
- ▲ Os na allwch agor ffenestr oherwydd ei bod yn cydio neu'n ddiffygiol, ffoniwch y Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau.
- ▲ Os ydych am newid unrhyw ffenestri, drysau gwydr neu nodweddion gwydr eraill, rhaid i chi gael caniatâd yn gyntaf gan eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol.
- ▲ Peidiwch â rhoi cadeiriau, blychau, potiau planhigyn mawr a phethau eraill y gall plant ddringo arnynt ger unrhyw ffenestri.
- ▲ Gwnewch yn siŵr fod modd agor y ffenestri ac nad yw awyrellau wedi'u rhwystro neu eu cau. Mae awyru digonol yn bwysig i'ch iechyd a'ch diogelwch.
- ▲ Os yw un o'ch ffenestri yn llwybr dianc, gwnewch yn siŵr fod modd ei defnyddio mewn argyfwng.
- ▲ Rhowch wybod i bawb yn y teulu ble rydych yn cadw'r allweddi.
- ▲ Ceisiwch osgoi rhoi gwely o dan ffenest lle gallai plentyn ei ddefnyddio i ddringo allan.
- ▲ Peidiwch â rhoi potiau planhigyn ar silffoedd ffenestri. Gallent gwmpo oddi arnynt ac anafu rhywun.
- ▲ Gwnewch yn siŵr fod eich drysau, yn enwedig y drysau allanol, mewn cyflwr da, gan gynnwys y cloeon a'r colfachau.



- ▲ Rhowch wybod i bawb yn y teulu ble rydych yn cadw'r allweddi. Cadwch allwedd sbâr mewn lle diogel. Rydym yn debygol o godi tâl arnoch am newid clo.
- ▲ Bydd stopiau drysau neu dywel dros ben drws yn ei atal rhag cau ar fysedd plant.
- ▲ Rhaid i chi gael caniatâd gan eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol cyn newid unrhyw ddrysau neu fframiau drysau.
- ▲ Rhaid peidio â rhoi lletem i agor drysau tân neu ddrysau â system fynediad.

Sbwriel



- ▲ Dylech storio a chael gwared ar eich sbwriel yn ofalus i osgoi problemau i'ch cymdogion a'r staff casglu.
- ▲ Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio llithrennau sbwriel. Peidiwch â thynnu'r caeadau - maent yn drwm ac yn beryglus. Gallech anafu eich hun a phobl eraill.
- ▲ Gallwch waredu eitemau swmpus (celfi, carpedi, blychau mawr etc) trwy ffonio Adran yr Amgylchedd ar ? **635600**. Peidiwch â'u taflu, neu geisio defnyddio llithrennau sbwriel.
- ▲ Gofynnwch i'ch fferyllfa neu'ch meddygfa gael gwared ar feddyginiaethau, tabledi neu chwistrellau.
- ▲ Rhaid cael gwared ar eitemau miniog fel gwydr a chwistrellau ar wahân - nid mewn sachau sbwriel.
- ▲ Peidiwch â gadael sachau sbwriel ar bennau grisiau neu mewn coridorau.
- ▲ Os ydych yn gorlenwi sachau sbwriel, ni fyddant yn mynd yn y llithrennau.
- ▲ Rhaid cael gwared ar ddeunyddiau peryglus megis olew a chemegau ar wahân. Mae gan rai safleoedd ailgylchu/tomenni cymunedol gyfleusterau i gael gwared ar olew. Neu ffoniwch Adran yr Amgylchedd ar ? **635600**.
- ▲ Dylech osgoi defnyddio llithrennau sbwriel yn hwyr yn y nos - mae'n tarfu ar bobl eraill.

Diogelwch Plant

Cadwch eitemau fel y canlynol o gyrraedd plant:

Cyllyll ac eitemau miniog - Dolenni padelli poeth - Dŵr poeth - Diodydd a thebotau twym - Fflamau noeth - Matsis a thanwyr - Eitemau cartref peryglus megis cannydd a deunyddiau glanhau - Tanau nwy a phibellau poeth (defnyddiwch gard tân neu gât ddiogelwch) - Rholeri gwallt, gefeiliau, haearnau smwddio poeth, sythwyr gwallt, tegellau a'u ceblau - Meddyginiaethau ac alcohol

Ystyriwch osod gatiau diogelwch plant ar y grisiau

- ▲ Os bydd y ffôn yn canu neu rywbeth arall yn tynnu eich sylw, ewch â hwy gyda chi bob amser.
- ▲ Cadwch blant draw o stofiau a pheiriannau golchi wrth eu defnyddio.
- ▲ Peidiwch byth â gadael plant ifanc ar falconiâu neu mewn ystafelloedd â ffenestri nad ydynt wedi'u cau'n gadarn. Peidiwch byth â'u gadael heb oruchwyliaeth yn y bath.
- ▲ Peidiwch byth ag arllwys cemegau megis cannydd neu ddeunyddiau glanhau i boteli pop.
- ▲ Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble i gau'ch cyflenwad nwy, dŵr a thrydan mewn argyfwng. Os nad ydych yn gwybod eu lleoliad, gofynnwch yn eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol.



Gollyngiadau Dŵr

- ▲ Os ydych yn dod ar draws gollyngiad dŵr difrifol, caewch dap y prif gyflenwad ar unwaith. Fel arfer mae o dan y sinc ond weithiau gall fod yn rhywle arall.
- ▲ Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod lleoliad stoptap y prif gyflenwad. Gall eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol ddweud wrthych.
- ▲ Os oes posibilrwydd y gallai'r dŵr sy'n gollwng ddod i gysylltiad ag unrhyw beth trydanol, diffoddwch y prif gyflenwad trydan hefyd.
- ▲ Agorwch yr holl dapiau yn y gegin a'r ystafell ymolchi i ddraenio'r pibellau'n gyflymach.
- ▲ Cadwch blant draw o'r dŵr os yw'n boeth.
- ▲ Diffoddwch y system gwresogi canolog os honno yw'r broblem.
- ▲ Rhowch wybod amdano i'r Ganolfan Gwasanaeth Atgyweiriadau. Efallai bydd angen gwirio'r offer trydanol.



Diogelwch Dŵr

Wrth ddychwelyd i'ch cartref ar ôl bod i ffwrdd am fwy nag ychydig ddyddiau, dylech redeg y tapiau poeth ac oer am ryw 2 funud cyn eu defnyddio.


Dylai hyn gael gwared ar unrhyw facteria Legionella a allai fod wedi cronni yn y pibellau. Rhedwch y dŵr oer i gael gwared ar unrhyw ddŵr llonydd yn y system a rhedwch y tapiau poeth ar dymheredd uchel i ladd unrhyw facteria. Os ydych yn mynd i gael cawod, rhedwch honno am ryw ddwy funud ar dymheredd uchel hefyd. Tynnwch ddŵr y toiled hefyd.

Rhifau Pwysig:

Canolfan Atgyweiriadau Tai: ? **01792 635100**
(7.30am i 6pm – Dydd Llun i ddydd Gwener)

Atgyweiriadau Brys y Tu Allan i Oriau: ? **01792 521500**

Uned Cefnogi Cymdogaethau: ? **01792 648507** (24 awr)



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

